tafod elái

MAI 2019

Rhif 337

Pris 80c

Llwyddiant i dîm rygbi Ysgol Llantrisant

Cynhaliwyd rownd derfynold Cwpan Rygbi 10 bob ochr Oedran Cynradd ar Faes Cenedlaethol y Principality yng Nghaerdydd dydd Mawrth, 30 Ebrill. Mewn gêm agos iawn y sgôr terfynol oedd Ysgol Llantrisant 30 - 25 Ysgol Christ the King. Roedd y sgôr yn gyfartal tan munud olaf y gêm pan llwyddodd Gwern i groesi'r llinell a sgorio cais arbennig. Roedd y tîm a'u hyfforddwr, Euros Jones, wrth eu bodd ac yn falch iawn o'r llwyddiant yn dilyn y gwaith caled o weithio drwy rowndiau'r gystadleuaeth. (Rhagor tudalen 6 ac 11)



Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd

Eleni mae Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd o 27 Mai i 1 Mehefin ac yn rhoi cyfle i ni fwynhau y gorau o dalentau ein pobl ifanc. Y pafiliwn eleni fydd Theatr Canolfan y Mileniwm a bydd y maes o gwmpas y Ganolfan yn y Bae. Mae tocynnau i rai o'r cyngherddau bron â gwerthu allan.

Bob blwyddyn, yn ystod Eisteddfod yr Urdd, mae Urdd Gobaith Cymru yn anrhydeddu pobl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'r mudiad dros gyfnod o flynyddoedd. Mae pedwar Llywydd Anrhydeddus eleni, a byddant yn cael eu anrhydeddu mewn seremoni ar lwyfan yr ŵyl ar y dydd Llun cyntaf. Y pedwar yw'r cyfarwyddwr a dramodydd Emyr Edwards, y cerddor ac arweinydd Alun Guy, un sydd wedi ymwneud â'r mudiad ers degawdau fel nyrs, Gaynor Jones ac un o arweinwyr yr Urdd ers blynyddoedd yn y brifddinas, Gwilym Roberts.

Cafodd Gaenor Jones, sy'n byw ym Mhentre'r Eglwys, ei magu yn Aberystwyth a fe'i haddysgwyd yn yr Ysgol Gymraeg ac Ysgol Ramadeg Ardwyn. Hyfforddodd fel nyrs yn yr Ysbyty Athrofaol yng Nghaerdydd a gweithio yna am dros ddeng mlynedd ar hugain. "Yn ffodus cefais y cyfle i fynd i'r gwersyll yn Llangrannog pan yn y chweched dosbarth a dyna ddechrau cysylltiad sy'n parhau hyd heddiw, ac wedi gallu mynychu'n ddi-dor yn rhinwedd fy swydd fel nyrs."

"Rwy'n gwerthfawrogi cael bod yn Llywydd Anrhydeddus gan fy mod yn teimlo bod hyn yn dangos pwysigrwydd yr elfen o gynnwys pawb a'r parch sy'n cael ei ddangos i'r rhai sydd yn y cefndir ym mhob rhan o'r mudiad."

Parti Ponty 2019

Yn dilyn llwyddiant Parti Ponty 2018 gyda 16,000 o ymwelwyr, 62 o ddigwyddiadau a 490 o bobl y gymuned ac ysgolion yn perfformio, mae Menter Iaith RhCT wedi dewis i ehangu'r digwyddiad a mynd â'r ŵyl i gymunedau amrywiol yn Rhondda Cynon Taf. Fe fydd parti'r flwyddyn yma yn cael ei gynnal yn Gartholwg, Pontypridd, Porth, Treorci ac Aberdâr.

Parti Ponty @ Gartholwg Dydd Sadwrn y 13fed o Orffennaf 10yb a 4yh

Parti Ponty @ Clwb-y-Bont Nos Sadwrn y 13fed o Orffennaf 5yh a 11yh

Parti Ponty @ Porth Nos Sadwrn yr 2il o Awst 7yh a 11yh

Parti Ponty @ Treorci Dydd Sadwrn y 14ydd o Fedi 11yb a 11yh

Parti Ponty @ Aberdâr yn cael ei gynnal Nos Wener yr 11fed o Hydref 11yb a 11yh

Bydd stondinau, gweithdai, cerddoriaeth byw, perfformiadau ysgolion, chwaraeon, perfformwyr stryd, gweithgareddau i ddysgwyr, sesiynau celf, sgyrsiau panel a llawer mwy! Wedi ei hariannu gan bartneriaeth rhwng Menter Iaith RhCT a Chyngor RhCT.

Ysgol Evan James

Rydym wedi cynnal Wythnos Wyddoniaeth gyda phob math o arbrofion cyffrous yn digwydd ym mhob dosbarth. Rydym wedi troi'r iard yn las ar gyfer Diwrnod Awtistiaeth.

Cafodd y rhieni wahoddiad i Arddangosfa Gelf yn yr Ysgol – da iawn i bob plentyn sydd wedi cyfrannu.

Cafodd Dosbarth Culhwch ac Olwen y cyfle i greu perfformiad Cân yr Organ yn Amgueddfa Pontypridd. Fe wnaethant greu dawns, cân ac animeiddiad.

Bu Cyngor Chwaraeon Cymru yn yr ysgol yn ddiweddar yn trafod ein Harolwg Chwaraeon a chreu podlediad gyda disgyblion Blwyddyn 6.

Gwnaeth dau dîm bechgyn ac un tîm merched o Flynyddoedd 5 a 6 yn arbennig o dda mewn cystadleuaeth 5 bob ochr pêl-droed.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed y merched am ddod yn 3ydd yng Nghystadleuaeth yr Urdd.

Aeth nifer o blant i'r Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau i Twm Pike, Brooklyn Gwenno Fortt, Beca Kenny-Griffiths a'r grŵp dawnsio ar berfformiadau gwych. Llongyfarchiadau i Twm ac i Alys Hanks-Doyle ar eu perfformiadau yng nghyngerdd Cerddorfa RhCT.

Mae Twm, Alys a Brooklyn wedi cystadlu hefyd mewn cystadleuaeth o'r enw 'Cerddor Ifanc y Flwyddyn'. Llongyfarchiadau i'r tri am gyrraedd y rownd derfynol. Da iawn chi!

Mae grŵp o blant wedi cymryd rhan yn y Cwis Llyfrau – diolch yn fawr iawn i bawb.

Aeth Dosbarthiadau Bendigeidfran, Branwen ac Ysbaddaden ar ymweliad â Stadiwm Principality. Cawson nhw daith o amgylch y stadiwm. Roedd pawb wedi mwynhau.

Mae nifer o wasanaethau dosbarth wedi digwydd yn ddiweddar. Daeth y rhieni i weld Dosbarth Branwen yn sôn am gadw'n iach, Dosbarth Bendigeidfran yn perfformio a thrafod chwedl Aesop 'Y Crwban a'r Ysgyfarnog' ac i ymuno gyda Dosbarth Blodeuwedd yn dathlu Diwrnod VE gyda pharti.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Gyda thristwch mawr, rhaid nodi ein bod wedi colli dau o garedigion y Gymraeg yn ystod y mis diwethaf.

Janet Richards neu Anti Jan
Prin bod neb wedi bod yn fwy dylanwadol o ran y Gymraeg yn Nhonyrefail nag Anti Jan a arweiniodd y Cylch Meithrin am un mlynedd ar hugain. Yn frodor o'r Rhondda, daeth i fyw yn Nhonyrefail ar ôl cwrdd â Colin yn yr enwog Meadow Vale. Ar ôl cael plant, Lee a Ceri, dechreuodd wirfoddoli yn y Cylch Meithrin ac yna dod yn arweinydd ymhen amser. Roedd plant Ton yn gwbl ddiogel yn ei dwylo a chofiaf y Cylch yn ennill dyfarniad Cylch Rhagorol dan ei harweiniad. Yn anffodus, bu'n rhaid iddi roi'r gorau i'r Cylch oherwydd salwch ond bu'n ddiwyd o hyd yn gwau cymeriadau megis Sali Mali a Jac y Jwc a'u gwerthu mewn ffeiriau lleol. Bydd rhieni a phlant Tonyrefail yn cofio bob amser am ei gwên a'i chynhesrwydd ac yn ddiolchgar am ei gwasanaeth ffyddlon. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'r teulu.

Jan gyda thîm y Cylch Meithrin

Walter Jones
Brodor o Gei Newydd oedd Walter a ymgartrefodd gyda'i wraig Shirley yn Nhonyrefail. Bu'n athro yn yr Ysgol Gyfun ond mae'n debyg ei fod fwyaf adnabyddus am ei waith yn Sain Ffagan a'i gariad at gerdded ac arwain teithiau cerdded, gan gynnwys rhai ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn ardal Llantrisant a Thonyrefail. Roedd ganddo ddiddordebau eang, gan gynnwys hanes lleol a chyhoeddodd gyfrol o'r enw *Tonyrefail: The Story of a Community*. Oherwydd afiechyd, bu'n rhaid i Walter a Shirley symud o Donyrefail at eu merch, Siân ym Mhorthcawl. Eto, rydym yn anfon cofion cynhesaf trigolion Tonyrefail at Shirley, Siân, a Ceri a'r teulu.

Ymgyrchwyr dros Addysg Gymraeg yn Lleol yn 'Cerdded Ymlaen'

Ar brynhawn Sadwrn braf daeth nifer o rieni a phlant a chefnogwyr ynghyd i orymdeithio o Ynysybwl i Rydyfelin er mwyn gwrthwynebu penderfyniad Cabinet Rhondda Cynon Taf i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton ac Ysgol Heol-y-Celyn ac adeiladu ysgol newydd ar safle presennol Heol-y-Celyn.

Nod ***Taith yr Iaith*** a gynhaliwyd ar 13 Ebrill oedd tynnu sylw at y pellter y mae disgwyl i blant mor ifanc â 3 oed ei deithio ar fws er mwyn cyrraedd yr ysgol newydd – taith o hyd at chwe milltir o ardaloedd Ynysybwl, Glyncoch a Choedycwm sy'n gallu cymryd dros hanner awr yn ystod traffig arferol.

Cychwynnodd y daith ar sgwâr Ynysybwl cyn teithio heibio i **naw** ysgol Saesneg ar y ffordd, ysgolion sydd o fewn cerddediad i'w cymunedau, er mwyn dangos nad oes yr un cydraddoldeb yn cael ei roi i addysg Gymraeg gan y Sir.

Cafwyd hoe fach o flaen hen safle ysgol Tŷ Gwyn yng Nglyncoch wedi i gais Rhyddid Gwybodaeth ddangos nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer y safle hwnnw. Safle delfrydol ar gyfer ysgol Gymraeg newydd efallai? Cafwyd areithiau yng nghanol tref Pontypridd gan rieni a hefyd Aelod Cynulliad Canol De Neil McEvoy cyn ail-gychwyn ar gymal olaf y daith i Heol-y-celyn. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd a chodi ymwybyddiaeth o bryderon rhieni.

Ers degawdau mae rhieni sy'n dymuno addysg Gymraeg i'w plant wedi gorfod bodloni ar deithio i'w derbyn. Ond mae diffyg cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus o'r cymunedau rheiny i Heol-y-Celyn yn mynd i'w gwneud yn anodd iawn i rieni allu dewis clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol os y dymunent a hefyd i allu cyrraedd eu plant mewn argyfwng neu os ydynt yn sâl. Mae rhieni o ardal Cilfynydd hefyd yn wynebu rhwystrau ymarferol gyda rhai yn dweud eu bod yn poeni cymaint am y sefyllfa na allent ddewis addysg Gymraeg am resymau ymarferol yn unig.

Tra'n croesawu yr angen i fuddsoddi mewn adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Pont Sion Norton, mae'r ymgyrchwyr yn teimlo fod gwendidau a gwallau mawr o fewn y cynlluniau presennol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth fod gwaith digonol a thrylwyr wedi ei wneud i archwilio i safleoedd eraill. Teimla yr ymgyrchwyr nad oes unrhyw fesur wedi bod ychwaith ar effaith y cynlluniau ar dwf yr iaith Gymraeg o

fewn cymunedau i'r gogledd o dref Pontypridd.

Meddai Katie Hadley, rhiant ac un o drefnwyr y daith: "Fel rhieni a chefnogwyr rydym yn teimlo fod ein hymatebion i'r broses ymgynghori wedi eu hanwybyddu ac na roddwyd gwrandawiad teg i'n hanerchiadau yn ystod y cyfarfodydd Cabinet a Chyfarfod y Pwyllgor Scriwtineiddio. Mae'r Cyngor yn dangos amharch llwyr i'r effaith a gaiff y pellter y mae gofyn ei deithio er mwyn cyrraedd yr ysgol newydd ar les y plant ac ar allu y rheini i ymuno a bod yn rhan o gymuned yr ysgol newydd. Dylai Addysg Gymraeg fod yn hygyrch i bawb - nid felly i'n plant ni os aiff y cynlluniau yma rhagddo."

Ychwanegodd Heledd Fychan, Cynghorydd Plaid Cymru dros Dref Pontypridd "Mae yna ragdybiaeth y bydd rhieni sydd yn anfon eu plant i YGG Pont Sion Norton ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny. Ond rydym yn gwybod nad yw hynny yn wir o'r dystiolaeth sydd wedi ei roi gerbron gan rieni. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys yr amseroedd teithio a'r diffyg darpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol, sy'n golygu fod yn rhaid i rieni ddal dau fws er mwyn cyrraedd eu plant. Fe godwyd pryderon am amseroedd teithio hefyd gan Estyn yn eu hadroddiad a'r pryder o'r effaith y gallai hyn ei gael ar les y plentyn. Os y gweithredir y cynlluniau yma fe fyddent yn gosod rhwystrau sylweddol ar y rhai sy'n dymuno addysg Gymraeg i'w plant. Mae angen ail-edrych yn fanwl ar y cynlluniau arfaethedig fel y gall yr iaith barhau i ffynnu ym Mhontypridd."

Mae mudiadau fel Cymdeithas yr Iaith a Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) sy'n rhannu pryderon yr ymgyrchwyr lleol, yn galw ar y cyngor i ail-feddwl ac ystyried amrywiaeth o opsiynau eraill er mwyn cadw darpariaeth addysg Gymraeg yn lleol yng nghymunedau gogledd Pontypridd.

Meddai Ceri McEvoy, Cyfarwyddwr Datblygu RhAG: "Ni fydd amddifadu cymunedau o addysg Gymraeg hygyrch a lleol yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Ac ni fydd cynyddu'r rhwystrau i gael mynediad at addysg Gymraeg yn cynorthwyo'r Sir i greu 6,054 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol erbyn 2021, fel sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Strategol y Gymraeg RhCT 2017-20. Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rhaid mynd â chymunedau RhCT - a gweddill Cymru - gyda ni ar hyd y daith, ac nid eu dieithrio oddi wrth y Gymraeg."

Os ydych chi yn anghytuno gyda chynlluniau y Cyngor mae modd mynegi eich gwrthwynebiad drwy ebostio schoolplanning@rctcbc.gov.uk cyn Mai 31ain.

Newyddion BanglaCymru

Bu misoedd cyntaf y flwyddyn yn rai digon prysur i dîm meddygol BanglaCymru mewn sawl ffordd. Yn fisol caf adroddiadau swyddogol gan ein cydlynydd meddygol, Dr Jishu ar weithgarwch y feddygfa, y feddygfa symudol yn y cymunedau tlawd a hefyd ein prif genhadaeth, sef rhoi llawdriniaethau i gleifion hollt a llosgiadau. Yn ogystal â hyn derbyniaf adroddiad ariannol ar faterion megis cyflogau'r gweithwyr, costau llawdriniaethau a'r ganolfan.

Un o ddigwyddiadau mwyaf ingol i'r tîm oedd mynd â'r feddygfa symudol yn ddiweddar i ardal heb fod ymhell o'n canolfan lle digwyddodd tân difrifol. Mae damweiniau tân yn beth cyffredin iawn yn yr ardaloedd hyn oherwydd dibyniaeth y bobl ar fflam i goginio, i oleuo a nadu'r mosgitos. Problem arall yw nad oes cyflenwad dŵr yn y mwyafrif o'r hofelau lle mae teuluoedd mawr yn byw, felly nid yw diffodd tân yn ddiymdroi yn rhywbeth rhwydd i'w wneud. Yn y tân hwn fe laddwyd deuddeg o blant a phobl, a bu tîm BanglaCymru yn ymgeleddu llawer o'r goroeswyr ddioddefodd losgiadau ac anafiadau eraill.

Ychydig wythnosau'n ôl aeth Dr Jishu a'i dîm meddygol i ddinas Tangail yn nhalaith Dhaka, tua 100km i'r gogledd o'r brifddinas yng nghanolbarth y wlad. Mae yma dri chwarter miliwn o bobl yn byw, a llaweroedd ohonynt yn byw mewn cyflwr cwbl arswydus o wael. Bu tîm BanglaCymru yn y ddinas hon sawl gwaith o'r blaen. Y tro hwn rhoddwyd llawdriniaeth i 44 o blant gan fwyaf, a rhai ohonynt â chyflwr hollt difrifol fel y plentyn yn y llun uwchben. Mae hyn yn dod â'r nifer o fywydau a newidiwyd ers sefydlu'r elusen i 1,355; a hyn i gyd yn dystiolaeth o'ch caredigrwydd chi.

O.N. Cewch weld yr elusen yn cael sylw ar 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol', S4C un nos Sul ganol mis Mai.

Mwynhau'r Lido

I ddathlu agor Lido Pontypridd am dymor newydd aeth Yvonne Evans a thîm Heno draw i sgwrsio gyda Andrew Ebbsworth sy'n nofio yn y pwll yn ddyddiol am tua awr a hanner. Mae'r Lido ar agor o 7 y bore i 7 yr hwyr bob dydd tan yr hydref.

Clwb Carco Gartholwg

Mae Clwb Carco Gartholwg yn darparu gofal plant y tu allan i oriau ysgol sy'n hygyrch ac o ansawdd gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae mewn amgylchedd croesawgar a Chymraeg ei iaith. Rydym yn cynnig amgylchedd cefnogol ble y gall plant ymlacio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r clwb wedi'i gofrestru gydag AGC. Mae'r Clwb yn weithredol ar gyfer bechgyn a merched ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr ardal sy'n 3-11 mlwydd oed.

Cynhelir y Clwb yn Ffreutur, Ysgol Gyfun Gartholwg
Dydd Llun – Dydd Gwener 3:30yp – 5:50yp
Pris:Sesiwn ar hap: £7.00 Taliad sefydlog: £6.50
Dilynwch ni ar Trydar @Carco_GarthOlwg
01443 407570 www.menteriaith.cymru

NEUADD Y PENTREF
EFAIL ISAF

SADWRN MEHEFIN 15

10.00 – 2.00yp

FFAIR GREFFTAU

Crefftau
Planhigion
Cacennau
Raffl a mwy!

Elw at ymchwil Nychdod Cyhyrol
Muscular Dystrophy Research

YMDDIRIEDOLAETH DREF LLANTRISANT
- Yn Cyflwyno -
Uleisiau a Phres
CÔR CYMYSG NOTEWORTHY
BAND GWIRFODDOL RAF SAIN TATHAN
CÔR YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLANTRISANT
Cyflwynydd: Dean Powell

- EGLWYS PLWYF LLANTRISANT -
DYDD GWENER, MEHEFIN 7TH, 2019 AM 7.30
Tocynnau ar gael o Ty Model neu ffoniwch 07773 352962
TOCYNNAU £6 YR UN | YR HOLL ELW I BROSIECT ADFER NEUADD Y DREF

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Cymraes fach newydd yn Vancouver!
Dyma Lowri Rae Honeybun - yn dri mis oed! Fe'i ganed yn Vancouver, Canada i Hannah ac Emyr Honeybun ddechrau'r flwyddyn! Mae Emyr a Hannah wedi ymgartrefu yno bellach, Emyr yn athro piano a gitâr. Llongyfarchiadau mawr deulu bach - ac i Dad-cu a Mam-gu yma yn y Creigiau, Jonathan a Nia Honeybun. Pob bendith!

Efeilliaid!
Dyma Noa gyda'i chwaer a'i frawd newydd, Cara Anni a Steffan Robert. Cyrhaeddodd y ddau ddydd Gwener Chwefror 22ain, Cara am 12.21pm a Steffan am 12.24pm. Ac maent yn bictiwr! Llongyfarchiadau Meleri a Rob - Light! Mae'n aelwyd lawen, gartrefol! Pob bendith deulu bach.

Croeso Loti Haf!
Llongyfarchiadau mawr Elin Haf a George Jones, Pentre'r Eglwys ar enedigaeth Loti Haf yn Ysbyty'r Waun fore Mawrth, 30ain o Ebrill, yn pwyso 6 phwys 13 owns. Chwaer fach i Anni Beth sy wrth ei bodd! Pob bendith.

Gwellhad llwyr a buan i . . .
. . . Bethan Samuel, sy wedi cael cyfnod anodd yn ddiweddar. Ond, gyda lwc, mae Bethan yn gwella. Pob dymuniad da i ti.

Adre!
Braf iawn gweld bod Ray adre gyda'r teulu yn Llys Gwynno wedi cyfnod o wella yn yr ysbyty. Dal ati i ennill tir.

David Jones, awdur!



Ar ôl ymddeol yn ddiweddar o fyd academia - mae David Jones wedi troi ei law at sgwennu. Mae e'n ddyn arbennig iawn - gwyddoniaeth arferai fynd â'i fryd - ond nawr nôl yn byw yng Nghymru - yn Radur - mae Dai yn mwynhau chydig o hwylio, cefnogi'r Sgarlets ac ysgrifennu. Thriller wleidyddol yw ei nofel gyntaf -yn seiliedig ar ddihangfa ryfeddol un troseddwr rhyfel oedd yn wynebu ei dranc mewn llys yn yr Hague yn ddiweddar a'r ymgais lew gan un o'i ddioddefwyr oedd am ddod o hyd iddo er mwyn cael cyfiawnder a'i ladd! Darllenwch hi - mae hi'n cael clod aruthrol ar Amazon!

Mae'r nofel ar gael ar Amazon - £2.99 ar gyfer Kindle, a £9.99 llyfr clawr meddal.

Lolfa Goffi Yr Hen Lyfrgell Porth,
Ar Fai 10fed agorwyd drysau lolfa goffi newydd Porth. Ceir naws Gymreig a chyfle i bawb ddefnyddio a dysgu Cymraeg yn y lolfa goffi a siop grefftau newydd. Bydd Clwb Cwtsh yn rhedeg sesiwn 8 wythnos i rieni sydd a diddordeb i anfon ei babi i addysg Gymraeg ac sydd am ddechrau'r daith i ddwy--ieithrwydd. Byddwn yn cydweithio gyda Cymraeg i Oedolion ac mae Menter Iaith yn symud mewn ii'r

swyddfeydd ar y llawr cyntaf ym mis Medi.

Bydd y siop goffi ar agor dydd Llun i ddydd Sadwrn o 9am tan 5 pm ond byddwn yn cynnal digwyddiadau arbennig ambell i nos Iau, Gwener neu Sadwrn ac yn hapus i gefnogi mudiadau, grwpiau neu gymdeithasau lleol sydd eisiau cynnal digwyddiad.

Un digwyddiad sydd werth nodi yn y dyddiadur yw un o ddigwyddiadu Parti Ponty eleni sef noson gyda Meic Stevens. Bydd y band Wigwam a' unawdwr ifanc Iestyn Gwyn Jones yn cymryd rhan yn y noson arbennig yma, fydd nos Wener Awst yr 2il am 7pm.

Flwyddyn yn ol fe brynodd Glyn a Teleri Jones hen lyfrgell Porth. Adeiladwyr brynodd yr adeilad yn wreiddiol gan y cyngor ac ar ôl blwyddyn o rwygo y lle yn ddarnau aeth yr adeilad nôl ar y farchnad.

Yn ôl Glyn Jones "Roeddwn yn edrych am swyddfa ar y pryd ac roedd yr hen lyfrgell yn cynnig adeilad deniadol, diddorol gyda chyfle i Teleri wireddu breuddwyd o redeg siop goffi a chrefftau. Bum yn gweithio bob penwythnos ar yr adeilad er mwyn adnewyddu yr hen adeilad ac mae'r prosiect wedi bod yn bleser. Gan ei fod yn adeilad cofrestredig roedd yn braf cael rhoi ail fywyd i adeilad hanesyddol gyda chymeriad unigryw".

Mae'n debyg fod yr adeilad wedi cael ei roi yn wreiddiol i Sir y Rhondda gan Thomas and Evans Ltd a'i droi yn lyfrgell yn 1949. Nhw oedd berchen y brand 'Welsh Hills' a ddaeth yn fwy enwog fel 'Corona'.

Yn ôl Teleri, "Bum yn gweithio yn y Rhondda gyda Mudiad Meithrin am ryw 8 mlynedd ac fe wnes i fwynhau cyd-weithio gyda phobl groesawgar y Rhondda. Yn ystod y cyfnod yma bum yn mynychu digwyddiadau yn y llyfrgell ac rwy'n falch ein bod wedi gallu achub yr hen adeilad ac wedi ceisio cadw naws a chymeriad yr adeilad. Y bwriad yw creu lle i bobl gwrdd a chymdeithasu, ac rydym yn gwerthu ystod eang o gardiau Cymraeg, cylchgronau Cymraeg, anrhegion a nwyddau a bwydydd Cymreig. Dewch draw am baned a chacen i werthfawrogi yr adeilad. Galwch draw i 47 Heol Pontypridd Porth"

Dilynwch ni ar facebook @ Yr hen lyfrgell Porth.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Awen Mai Evans

Cydymdeimlad:
Estynnwn ein cydymdeimlad mwyaf dwys i David a Dean Powell ar golli Carole, gwraig David, a mam Dean.
Fe wynebodd Mrs Powell dostrwydd blin yn ddewr iawn am flynyddoedd lawer. Derbynnir rhoddion tuag at ymchwil i glefyd yr esgyrn er cof amdani.
Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Llantrisant ar Ddydd Llun Ebrill 29ain.

Dymuniadau gorau:
Pob hwyl i Elin merch Sian a Geraint Davies, Portreeve Close, Llantrisant.
Yn dilyn gwyliau yn Awstralia yn ddiweddar cafodd ei tharo'n wael yn Hong Kong ar y ffordd adre. Gwellhad buan i ti Elin.

Dal i aros:
Ers dros ddeugain mlynedd mae trigolion Groes-faen wedi bod yn pwyso ar y cyngor lleol (Rhondda Cynon Taf a chyn hynny Taf Elai a Morgannwg Ganol) i ddarparu man croesi diogel ar ffordd yr A4119 sydd yn mynd drwy'r pentref. Mae'r ymgyrch wedi dwysau yn ystod y deunaw mis diwethaf, yn rhannol oherwydd y cynnydd sylweddol yn y drafnidiaeth sy'n mynd drwy'r pentref.
Hefyd bydd y datblygiadau sydd ar droed i'r Gogledd Orllewin o Gaerdydd yng Nghapel Llanilltern, Rhydlafar, a Radyr yn sicr o ychwanegu'n ddirfawr at y broblem maes o law.
Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Eglwys y pentref rai misoedd yn ôl mae'r cyngor erbyn hyn wedi cytuno i ariannu ymchwiliad pellach i'r mater. Mae pethau yn symud 'mlaen yn ara bach fesul modfedd ond mae'r saga yn parhau.

Rygbi: (Adroddiad Dafydd Roberts)
Roedd tîm rygbi Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant (blynyddoedd 5 a 6) wedi cyrraedd rownd derfynol cwpan Undeb Rygbi Cymru. Mae hyn yn dilyn llwyddiant yn y rowndiau cyntaf cafwyd eu chwarae yn erbyn ysgolion rhanbarth Pontypridd, ac yna buddugoliaeth yn y rowndiau cyn-derfynol. Ni chafodd yr un cais ei sgorio yn erbyn Llantrisant yn y chwe gêm a chwaraewyd yn y rowndiau cyn-derfynol, oedd ar faes rygbi clwb Dyfnant ar Ebrill y 5ed. Daeth llwyddiant arbennig yn y rownd derfynol ar Ebrill 30 yn Stadiwm y Principality. Rhagor ar dualen 1.

Gohebydd mis nesa' : Dafydd Roberts

Ysgol Pont-Sion-Norton

Cyngor Eco
Diolch i bawb am ddod â batris a sbwriel wyau Pasg i'r Ysgol i'w hailgylchu. Croeswn ein bysedd nawr wrth iddyn nhw gael eu pwyso!

Diwrnod Glas
Gwisgodd yr ysgol mewn glas i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn ddiweddar. Cafwyd trafodaethau pwysig a diddorol ar draws yr Ysgol.

Dŵr Cymru
Diolch i Ddŵr Cymru am y croeso a'r ymweliad i ddosbarth y Gamlas wrth ddysgu am ddŵr.

Rygbi
Pob lwc i'n tîm rygbi yn y rownd derfynnol yng nghystadleuaeth yr Urdd yn Aberystwyth ym mis Mai!!

Eisteddfod yr Urdd
Pob lwc i'r Ymgom yng nghystadleuaeth Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mai!!

Cwis Llyfrau
Pob lwc i'r criw cwis llyfrau o flwyddyn 3 a 4 sydd yn teithio i Aberystwyth ar gyfer y rownd derfynol!!

Ardal Allanol
Mae'r Ardal Allanol bron yn barod! Diolch i bawb o'r staff, rhieni a ffrindiau sydd wedi bod yn brysur iawn yn clirio, plannu, peintio ac adeiladu er mwyn creu ardal allanol deniadol ac addysgiadol i blant y cyfnod Sylfaen. Mae'r plant yn edrych ymlaen at ddysgu a mwynhau yno wrth astudio'r thema 'Yn yr Ardd'.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Bydd ein rhaglen am 2018/19 yn dod i ben Nos Lun Mai 20fed am 7.30 yr hwyr yn ystafell G07 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd pan fyddwn yn croesawu Derith Rhisiart i'n hannerch. Byddwn hefyd yn cynnal ein cyfarfod cyffredinol blynyddol. Croeso i bawb.

Braf oedd agor tudalennau rhifyn Gwanwyn y cylchgrawn Advances Wales a ddaeth i'n tŷ ni yn ddiweddar. Rwyn cael blas ar y cyhoeddiad lliwgar, dwyieithog hwn o Lywodraeth Cymru; daw, yn rhad ac am ddim, ar ffurf copi caled neu ar lein. Cysylltwch gyda Jennifer Clark ar innovation@gov.wales neu dros y ffôn ar 03000616040. Ceir crynodebau hwyliog am lu o weithgareddau ymchwil a datblygiad ar nifer o destunau gwyddonol mewn sefydliadau ar draws Cymru. Y tro hwn glaniodd fy llygaid ar y canlynol.

Mae cwmni biotechnoleg Bionema o Abertawe wedi creu magl pryfed i frwydro yn erbyn chwilod yr haf, sy'n gyfrifol am ddifrod sylweddol i laswellt a thyweirch ar gwrs golff.

Mae gwyddonwyr yn adran ffiseg Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Queensland yn arloesi dull newydd, mwy sensitif, i fesur tonnau uwchsain. Mae gan uwchsain ystod eang o gymwysiadau, megis, yn y maes meddygol ar gyfer archwilio merched beichiog ac ar gyfer delweddu biofeddygol cydraniad i ganfod tiwmorau. Fe'i defnyddir hefyd at ddelweddu gwrthrychau tanddwr a cherbydau awyr di-griw.

Mae'r cwmni Oseng-Rees Reflection yn Abertawe wedi datblygu ffordd arloesol o ailgylchu poteli gwydr i wneud paneli addurnol, cynaliadwy ar gyfer cymwysiadau pensaernïol. Fel rheol mae'r poteli hyn yn cael eu pentyrru mewn sgip a'u trawsnewid yn gynnyrch isel ei werth megis agregau. Mae'r datblygiad newydd yn anelu at ddefnydd mwy amrywiol, gan ddefnyddio llai o egni.

Mae partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a'r cwmni Sequestim yn datblygu sganiwr teithwyr mewn maes awyr, gyda'r bwriad o gyflymu trosglwyddiad teithwyr tra'n cynnal diogelwch. Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn teithio mewn awyren bob dydd ar draws y byd. Disgwylir y bydd y nifer yn dyblu mewn 20 mlynedd. Felly mae amcan y bartneriaeth yn greiddiol.Ewch ati i gael eich copi o Advances Wales.

A nawr am rywbeth gwahanol.
Dewiswch unrhyw rif. Adiwch ato y rhif nesaf i fyny. Adiwch 9. Rhannwch gyda 2. Tynnwch i ffwrdd y rhif cychwynnol. Sawl bys sy ar eich troed chwith? Mmm!

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Amanda a Gwion Evans, Parc Nant Celyn, ar enedigaeth eu mab bach, Sion Ceredig. Mae Dafydd Teifi wrth ei fodd gyda'i frawd bach newydd.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Karen Evans, a'r teulu ym Mharc Nant Celyn ar golli tad Karen yn ystod y mis.

Yr Arweinydd Gorau
Llongyfarchiadau i Steffan Watkins, arweinydd Côr Godre'r Garth ar ennill Plât Arian yr Arweinydd Gorau yn yr Ŵyl Gorawl Rhyngwladol yn Nghaerdydd yn ddiweddar.

Steffan Watkins, yr Arweinydd, gyda Branwen Evans, cyfeilydd y côr.

Cantorion o Fri
Mae dwy o ferched y pentref wedi eu dewis i ymuno â Chôr Kids Aloud. Llongyfarchiadau gwresog i Awen Rhys, Penywaun ac Alys Elfyn, Ffordd y Capel. Rwy'n siŵr y cewch brofiadau anhygoel o fod yn aelodau o'r Côr gwych yma.

Cyngerdd Côr yr Einion
Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn gan Gôr yr Einion yng Nghapel y Tabernacl nos Iau, Ebrill 4ydd. Cafwyd eitemau safonol iawn hefyd gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg. Bu rhai disgyblion yn canu unawdau, llefaru, canu'r ffidil yn ogystal â phartïon canu a llefaru a chorau.

Diolch o galon i'r plant a'r athrawon am roi o'u hamser a'u doniau i gyflwyno noson safonol a chartrefol iawn. Diolch hefyd i Siân Griffiths, Siân Elin a Gill Williams am eu hymroddiad arferol i Gôr yr Einion.

'Ffermwyr ar y Carneddau'
gan Kyffin Williams
o gasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Y TABERNACL
Cydymdeimlo
Trist yw gorfod cofnodi colli un o'n haelodau hynaf yn Y Tabernacl, sef Brynmor Davies o Radur. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Myra, ei weddw ac i'w fab Berwyn a'i ferch Bethan a'r teulu ym Mharc Nant Celyn. Roedd Bryn yn hanu o Randir mwyn, Sir Gaerfyrddin a bu'n ddarlithydd yn Y Coleg Normal am gyfnod maith cyn symud i fyw i Radur. Cynhaliwyd yr angladd yn Y Tabernacl, dydd Gwener, mai 3ydd.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan a llwyr i Bethan Samuel, Creigiau sydd heb fod yn hwylus iawn yn ddiweddar.

Noson Gyri
Mae'r Twmiaid wedi bod yn brysur unwaith yn rhagor yn codi arian. Diolch iddynt ac i Heulyn a Catrin am drefnu Noson Gyri yn Indiaah, Pontyclun nos Iau Ebrill 11eg. Yn ôl pob sôn cafwyd noson hwylus iawn a chodwyd £317 tuag at Gronfa Achub y Plant. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Merched y Tabernacl
Fore Iau, Ebrill 11eg, teithiodd nifer dda o aelodau Merched y Tabernacl i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Ar ôl cael paned a sgwrs cawsom ein cyflwyno i Andrew Renton, ein tywysydd am y bore. Roedd Andrew wedi dysgu'r iaith Gymraeg, ac mi wnaeth gyflwyno gwaith Kyffin Williams i ni yn hynod o ddiddorol. Mae'n debyg mai Kyffin Williams oedd arlunydd enwocaf Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Roedd yn hanu o Langefni, Sir Fôn, ffaith a gafodd fonllef o gymeradwyaeth gan Glenys sydd hefyd â'i gwreiddiau yn Llangefni.

Er i Kyffin Williams ddechrau ei yrfa yn y fyddin bu'n rhaid iddo adael y Ffiwsilwyr Cymraeg oherwydd ei fod yn dioddef o epilepsi a chynghorodd meddyg iddo droi at beintio er lles ei iechyd. Astudiodd yn Ysgol Gelf Slade yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yna bu'n athro celf yn Ysgol Highgate yn Llundain. Yn ystod y cyfnod hwn yn Llundain byddai'n dychwelyd i Gymru yn aml i beintio. Ymhen amser fe ymgartrefodd yn ôl yn ei Sir enedigol a bu'n byw mewn bwthyn ar lan y Fenai lle ceid golygfeydd gwych o fynyddoedd Eryri. Daeth y tirluniau hyn o fynyddoedd Eryri yn ganolog i ran helaeth o'i waith.

Cawsom ein tywys o lun i lun gan Andrew a chael eglurhad manwl am bob un gwaith. Roedd un neu ddau lun gan gyfoedion a darlithydd i Kyffin yng Ngholeg Slade. Treuliodd gyfnod ym Mhatagonia yn cofnodi ei argraffiadau o'r gymuned Gymreig a'r dirwedd yn Y Wladfa. Campwaith yr Arddangosfa yn fy marn i oedd y llun o'r ffermwyr ar y Carneddau. Diolch o galon i Andrew am gyflwyno'r gwaith mor feistrolgar i ni a hynny yn ei ail iaith. Diolch hefyd i Eifion am drefnu'r ymweliad.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymuno â Changen Merched y Wawr, Tonysguboriau i glywed Gwenno Rees yn sôn am ei blwyddyn ym Mhatagonia. Bydd y cyfarfod yn Y Tabernacl nos Ferched, Mai 22ain am 7.30yh.

Trefn yr Oedfaon
Mai 5ed Oedfa Gymun o dan ofal aelodau'r Creigiau a'r Groesfaen
Mai 12fed Oedfa Cymorth Cristnogol
Mai 19eg Sul Teuluol gyda Mike a Lyn West a Gwilym a Beti Treharne
Mai 26ain Y Parchedig Gethin Rhys.
Meh 2il Oedfa Gymun o dan ofal aelodau Meisgyn, Llanharan a Llantrisant
Meh 9ed Y Parchedig Aled Edwards

Merched y Wawr Cangen y Garth



Tweli Griffiths oedd ein siaradwr gwadd ym mis Ebrill - ac am siaradwr difyr ydoedd - gyda'i straeon gafaelgar, dirdynnol weithiau, fe'n cadwodd ar flaenau ein seddau tra'n ein tywys i fannau cythryblus y byd yn rhinwedd ei waith fel gohebydd gwleidyddol i HTV yn ei dro. Cawsom glywed ei hanes yn Syria, Lybia, Cuba, Iran, Iraq ac Ethiopia - cawsom weld 'y fedal' a gyflwynwyd iddo gan Gaddafi - am iddo brofi ei hun yn filwr cymwys! Stori ddirdynnol Mohammed - Joseph bellach - yn Ethiopia - a'i ymgais i ganfod y bychan wrth iddo ail-ymweld â'r wlad.

O ddirgelion tywyll y byd gwleidyddol cymhleth bu'n rhan ohono cyhyd - fe'n swynwyd gan ei allu lledrithiol am y chwarter awr ola! Fe brofom 'dric hyna'r byd' Slic iawn! Tric y cwpan a'r peli! Gwych! A'r rhaffau - neu'r 'cyhyrau' - wrth iddynt festyn a chrebachu yn y dosbarth yoga! Yna'n ola - y siaced! Faint dalodd e amdani? Chi'n cofio? Gwych iawn! Pwy na all gredu bod hud a lledrith yn bod? Diolch Tweli am noson ddifyr a chofiadwy.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb Rygbi Pentyrch

Bu cysylltiad agos rhwng Clwb y Dwrlyn a Chlwb Rygbi Pentyrch ers sefydlu'r Gymdeithas Gymraeg leol nôl yn 70'r ganrif ddiwetha. Y ffaith taw'r Clwb Rygbi – ar Faes y Dwrlyn – fu'n ganolfan i'r gweithgaredde o'r cychwyn cynta sy'n gyfrifol am enw'r Gymdeithas – ond fe ddaeth y cysylltiad hwnnw'n nes fyth yn ddiweddar pan benderfynodd y Dwrlyn noddi gêm y tîm rygbi am y tro cynta erioed. Yn addas iawn – gêm yn erbyn Clwb Rygbi Cymry Caerdydd oedd honno, a hynny wedi arwain at naws Gymraeg hyfryd am y prynhawn yn y clwb ac ar y cae – gyda mwyafrif chwaraewyr y ddau dîm yn Gymry Cymraeg. Tystiolaeth y criw a ddaeth i gefnogi oedd eu bod wedi mwynhau'r cymdeithasu a'r ddwy wledd – y bwffe blasus ymlaen llaw a'r gêm gyffrous ar y cae – y ceisie'n llifo, a'r ymwelwyr yn mynd â hi o un pwynt yn unig – 27-26. Neges y Clwb Rygbi – Diolch am y nawdd, a dewch eto. Bydd croeso mawr unrhyw amser i chi ddod i gefnogi tîm y pentre.

Noson Werin Acapela

Nos Iau, 2 Mai, daeth y canwr gwerin o Arfon, Gwilym Bowen Rhys, i ddiddanu cynulleidfa Acapela, Pentyrch. Dros y ddegawd diwethaf mae wedi bod yn hogi ei grefft fel perfformiwr gydag amryw o fandiau (Plu) ac ar ben ei hun, ac mae bellach yn hen law ar swyno a diddanu cynulleidfaoedd adref a thramor. Drwy gyfuno hen eiriau ac alawon Cymreig a'i gyfansoddiadau gwreiddiol, mae'n llwyddo i greu cerddoriaeth sy'n gyffrous a hiraethus, yn gwthio ffiniau ond wedi'w wreiddio'n dyfn ym mhridd Cymru. Yn addas iawn cyhoeddwyd ei drydydd albym unigol – 'Arenig' ar Fai y 1af, 2019 diwrnod cyn ei berfformiad yn Acapaela.

Bydd Elinor Bennett yn cynnal ei chyngerdd haf yn Acapela am 8yh ar 14 o Orffennaf. Tocynnau - acapela.co.uk

Taith i Orllewin Cymru



Mae Gwasg Gomer yn adnabyddus fel cyhoeddwr cyfrolau barddoniaeth ac rydym yn falch iawn o gyhoeddi cyfrol newydd o waith gan y Prifardd Idris Reynolds.

Ar ben y Lôn yw'r gyfrol ddiweddaraf iddo ysgrifennu ers ennill cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2017 am *Cofio Dic: Darn o'r haul draw yn rhywle*. Cyhoeddodd Idris ei gyfrol ddiwethaf o gerddi i Gomer *Ar Lan y Môr* yn 1994.

Mae *Ar Ben y Lôn* yn daith o gwmpas gorllewin Cymru sy'n cyflwyno cymeriadau, llefydd, digwyddiadau, a theimladau'r bardd ar amryw bynciau'r dydd.

Mae'r casgliad yn cynnwys cerddi sy'n talu teyrnged i enwogion fel Ray Gravell, ac Elin Jones AC, ac yn ymateb i sefydliadau adnabyddus megis Radio Sir Gâr, a Chanolfan Iaith Aberystwyth. Yn ogystal, mae'n dathlu'r pethau hynny sy'n cyfoethogi cymdeithas gan gynnwys chwaraeon a ffrindiau agos.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
Mis Mai 2019
5 - Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel
12 - Oedfa Cymorth Cristnogol
19 - Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
26 - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
Mis Mehefin 2019
2 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
9 - Oedfa'r Sulgwyn dan ofal y gwragedd
16 - Oedfa dan ofal y Parchedig Ken Williams
23 - Oedfa dan ofal y Parchedig Dewi Myrddin Hughes
30 - Oedfa dan ofal June a Huw Lloyd

ooooOOOOoooo

Fe fuom ar daith i Boston, Massachusetts yn ystod yr Wythnos Fawr eleni.

Cyrhaeddasom ar bnawn Mawrth 16eg o Ebrill heb lawn sylweddoli pa baem wedi cyrraedd ddiwrnod ynghynt y buasem wedi cael cyfle i redeg Marathon Boston a hynny ar "*Patriots Day*" (y trydydd dydd Llun ym mis Ebrill yn nhaleithiau Massachusetts a Maine).

Mae digwyddiadau 2013 wedi eu serio yn ein cof yng nghyd-destun y Marathon, pan chwythodd dau fom yn agos i'r llinell derfyn gan ladd 3 ac anafu 264 o bobl.

Dethlir "Dydd y Gwladgarwyr" ("*Patriots Day*") yn flynyddol i gofio am yr ymladd arfog cyntaf rhwng milwyr Prydain (y famwlad) a milisia trefedigaethol y taleithiau Americanaidd ym Mrwydrau Lexington a Concord yn 1775, a hynny yn ei dro yn cael ei gydnabod fel dechrau diymwad y Chwyldro a arweiniodd at annibyniaeth y wlad.

Mae dinas Boston yn llawn o hanes y cyfnod cythryblus yma ac mae modd dilyn briciau coch o lwybr ar y palmant (Y "*Freedom Trail*") i'ch tywys o le i le sy'n gysylltiedig a'r digwyddiadau, yr adeiladau a'r bobl newidiodd hanes yr Unol Daliaethau a Phrydain o hynny ymlaen.

Ac oes mae modd cael paned o de yno wedi digwyddiadau y 10fed o Fai 1773, pan daflwyd cistiau te y British East India Company i'r harbwr mewn protest yn erbyn y Dreth Te a osodwyd gan Lywodraeth Prydain – "trethiant heb gynrychiolaeth" - cofiwch y slogan!

"Meibion Rhyddid ("*Sons of Freedom*") oedd yn gyfrifol am y weithred hon, a diddorol nodi ar hysbysfwrdd yn yr Harbwr lle heddiw maent yn ail-greu'r digwyddiad yma ar gyfer twristiaid, fod 'na nifer o feibion o dras Cymreig, mi dybiwn, os teilwng y cyfenw Williams, yn eu mysg – David, Isaac, Jeremeiah a Thomas.

Ac wrth reswm ni ddyliai hynny fod yn rhywbeth i'n syfrdau oherwydd, yn ol un ffynhonell, tybir bod 16 o'r 56 a lofnododd "Ddatganiad Annibyniaeth" yr Unol Daleithiau yn 1776 yn hanu o dras Cymreig, a bod hefyd nifer o Arlywyddion y wlad a'u partneriaid, o'r cychwyn cyntaf yn arddel cyswllt teuluol a Chymru. e.e. Martha Washinghton (gwraig George Washington); John Adams (yr 2il Arlywydd); Thomas Jefferson (Arlywydd rhif 3); hyd at Barack Obama (yr honnir fod ei hen-hen-hen-hen-hen-daid, gwr o'r enw Robert Perry [g.1786], yn hanu o Ynys Mon).

Gyferbyn a'r gwesty lle 'roeddem yn aros, ar groesffordd Stryd yr Ysgol a Stryd Tremont, 'roedd Capel y Brenin, a adeiladwyd yn 1754, a gerllaw'r capel 'roedd mynwent o'r un enw, mynwent hynaf Boston, yn deillio 'nol i 1630, er nad oedd a wnelo unrhywbeth a'r capel.

Yma y gorwedd gweddillion y ferch gyntaf Ewropeaidd i lanio ar dir mawr New England (Mary Chilton), ac hefyd tybir bod gweddillion William Dawes, (un o arwyr y Chwyldro - un o'r criw, yng nghwmni Paul Revere, a farchogodd ar frys o Boston i Lexington i rybuddio bod milwyr Prydain ar dramp ac ar eu ffordd i arestio arweinwyr y Meibion Rhyddid), wedi ei gladdu yma ar un amser.

Ynghanol y beddfeini hynafol fe ddaliodd un garreg fy sylw –'roedd yn un ddiweddar iawn, o lechen, ac hefyd, enw gwr o'r enw Rhys Williams, a fu farw yn 2003, oedd arni.

Yn ychwanegol nodwyd ei fod wedi bod yn weinidog ("*Pastor*") am 40 mlynedd rhwng 1960 a'r flwyddyn 2000. [Gyda'r Undodiad (y *First Church in Boston*)]

Wedi dod adref fe es i chwilota mymryn am hanes y gwr a'i deulu a'i gael yn hynod ddifyr.

Ganed Rhys Williams yn 1929 yn San Fransisco, yn fab i Lucita Squier ac Albert Rhys Williams [1883 – 1962]. "*Screenwriter*" yn Hollywood oedd Lucita, tra bu Albert yn Weinidog gyda'r Annibynwyr, ac yn ddiweddarach gyda'r Undodiad [1908 – 1914], cyn troi at newyddiadura a llenydda ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Closiodd at feddylfryd Dyneiddiaeth yn ddiweddarach y ei oes.

Roedd taid a nain Rhys, David Thomas Williams ac Esther Rhys, yn fewnfudwyr o Gymru – a David hefyd, ynghyd a thri brawd arall yn Weinidogion gyda'r Annibynwyr.
Fe arestiwyd Albert gan yr Almaenwyr yng nglwad Belg yn ystod y rhyfel ar dybiaeth ei fod yn ysbiwr ar ran Prydain.

Bu rhieni Rhys yn byw yn Rwsia am gyfnod a bu'r tad yn dyst i'r Chwyldro Rwsiaidd yn Hydref 1917. Fe wirfoddolodd i ymuno a'r Fyddin Goch, er mai fel rhan o'r Lleng Ryngwladol y bu'n ymladd. 'Roedd yn gyfaill i Vladimir Ilyich Lenin a bu'n gweithio i Leon Trotsky gan ysgrifennu propaganda i ansefydlogi milwyr yr Almaen a wynebai'r Rwsiaid.

Dihangodd Albert o grafangau'r Gwynion amser y Chwyldro ar long Chineaidd, a dychwelodd i'w gartref yn yr UDA i ysgrifennu llyfrau ar Lenin, y Bolshefics a Rwsia. Ymwelodd lawer gwaith a Rwsia wedi hynny tan ei farwolaeth yn 1962.

Claddwyd llwch Rhys Williams yn y fynwent gyferbyn a bedd John Cotton, ail weinidog y "*First Church*" [1633 – 1642], a bedd John Winthrop [1587/88 – 1649], llywodraethwr cyntaf Trefedigaeth Bae Massachusetts [sef yr ail drefedigaeth i'w sefydlu yn New England wedi Plymouth].

Cyrraeddasom gartref ar Sul y Pasg i newyddion erchyll y gyflafan yn Sri Lanka. Lladdwyd 253 ac anafwyd o leiaf 500 yn y bomio mewn eglwysi Cristnogol a gwestai yn y brifddinas, Colombo, a threfi Negombo, Batticaloa, Dehiwala a Dematagoda.

Boston 2013; Sri Lanka 2019 – Wythnos Fawr!

ooooOOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem www.bethlehem.cymru

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

Menter Caerdydd Cynlluniau Gofal Sulgwyn

Gallwch nawr archebu lle ar ein cynlluniau gofal ar gyfer gwyliau hanner tymor Sulgwyn. Mae amserlen llawn gweithgareddau ar gyfer y plant - o weithdai gwyddoniaeth i gerddoriaeth, coginio, castell neidio, brwydr ddŵr, trip i'r Eisteddfod a llawer, llawer mwy.

Am ragor o wybodaeth, amserlen lawn ac i archebu:
http://mentercaerdydd.org/

Ysgol Treganna ac
Ysgol Melin Gruffydd
28.05.2019 - 31.05.2019
8:30am - 5:30pm
£25 y dydd
gwenno@mentercaerdydd.cymru
02920 689888

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mehefin
i gyrraedd erbyn
24 Mai 2019

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê

Argraffwyr:
Copyprint Wales
Trefforest
www.copyprintwales.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Noson yng nghwmni Gwenan Gibbard

8yh Nos Wener, 17 Mai
Clwb Rygbi Pentyrch
Cynabyddir cenfogaeth
Cynllun Noson Allan,
Cyngor y Celfyddydau Cymru

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Michael Churchill-Jones yn 'Olrhain Achau'
8yh Nos Fercher,
12 Mehefin
Y Ganolfan, Efail Isaf

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Mai 15fed
'Lleisiau ar lawr y Ffatri'
gyda Catrin Stevens

Mai 22ain
'Blwyddyn ym Mhatagonia'
Gwenno Rees
7.30yh Y Ganolfan, Efail Isaf

Rhagor o fanylion:
01443 223828

Cymdeithas Edward Llwyd Castell Carreg Cennen

Un o'n teithiau mis Mawrth oedd o amgylch Castell Carreg Cennen yn sir Gaerfyrddin, un o'n cestyll ni yn wreiddiol ond fel llawer o gestyll Cymreig neu Normanaidd wnaeth newid perchnogaeth mwy nag unwaith. Castell ysblennydd yn eistedd yn urddasol ar ben graig uchel a oedd yn gweiddi am gastell arni. Mae'n edrych i lawr ar ran helaeth o'r sir a dim ond wrth galon gref bydd rhywun yn gallu cyrraedd y safle ac wedyn ymosod.

Mae tarddiad yr afon Llwchwr bron o fewn tafliad carreg ond nid fel nant fechan mae'r afon yma yn codi yn hytrach allech ddweud bod yr afon yn dechrau yn ei haeddfedrwydd. Calchfaen yw carreg yr ardal ac mae'r Llwchwr yn byrlymu o'r ddaear ac yn sbrintio tuag at y môr o'r dechrau fel does dim munud i golli. Tua phedwar milltir oedd hyd y daith ond mwy na thipyn o ddringo i ddeffro ein cyhyrau. Llawer o ddiolch i John Harri ein harweinydd. Am adroddiad llawn am y daith ewch at http://www.gydangilydd.cymru/carregcennen.htm

Yma yn y de bydd ein teithiau rhwng canol mis Mai tan ganol mis Mehefin yn mynd â ni i ardal Aberdaugleddau, Pencader, Machynlleth a Llangadog. Croeso i chi ymuno â ni, mae manylion llawn ar ein gwefan http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/

Ysgol Llantrisant

Pencampwyr! (o tudalen 1)
Fe aeth criw cyffrous iawn o fechgyn o Flynyddoedd 5 a 6 i chwarae rygbi yn Stadiwm y Principality ar ddiwrnod cynta'r tymor. Roedden nhw drwyddo i'r rownd derfynol yn y gystadleuaeth WSRU 10 bob ochr, a hynny yn erbyn Ysgol Gatholig Christ the King yng Nghaerdydd. Ar ôl gêm agos iawn, YGGG Llantrisant oedd yn fuddugol o 6 cais i 5. Llongyfarchiadau arbennig i Sam Naish o Flwyddyn 6 a sgoriodd 4 o'r ceisiau a diolch i Mr Jones am ei waith hyfforddi. Gwych fechgyn!

Eisteddfod yr Urdd
Bydd gwisgoedd porffor YGGG Llantrisant i'w gweld yn Eisteddfod yr Urdd Bae Caerdydd yn ystod hanner tymor eleni eto. Byddwn yn cystadlu yn y cystadlaethau Parti Deulais, y Parti Unsain, Unawd Blwyddyn 2 ac Iau a'r Côr. Gobeithio y bydd newyddion da gennym ar gyfer y rhifyn nesaf o Tafod Elai!

Sesiwn Goginio
Ddydd Mawrth y 30ain o Ebrill fe ddath Beca Lyne-Pirkis atom er mwyn cynnal sesiwn goginio gyda disgyblion Blwyddyn 2. Ffilmiwyd yr eitem ar gyfer y rhaglen "Ffit Cymru".

Gorymdaith Hetiau Pasg
Ar ddiwrnod olaf tymor y gwanwyn, fe gynhaliwyd gorymdaith hetiau Pasg. Roedd disgyblion CA2 wrth eu boddau'n gweld yr amrywiaeth wych o hetiau a oedd wedi'u paratoi gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr o bob dosbarth.

Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
Er mwyn codi ymwybyddiaeth o Wythnos Ymwybyddiaeth Awstitiaeth yn ddiweddar, fe ddaeth pawb i'r ysgol wedi'u gwisgo mewn dillad glas. Diolch i Mrs Adams, mam Medi, Lloyd ac Anwen a ddaeth i siarad gyda ni am awtistiaeth a sut i fod yn ffrindiau da i blant sydd â'r cyflwr.

Ysgol Gwaelod y Garth

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau ysgol, Cylch a'r Sir eleni. Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd. Pob lwc i'r rhai ohonoch fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod ym Mae Caerdydd. Diolch i bawb sydd wedi bod yn brysur yn eu hyfforddi ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Newyddion o'r ystafell athrawon
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Tania Price sydd wedi priodi dros y Pasg. Fe fyddwn yn edrych ymlaen i groesawu Mrs Evans yn ôl i 1C!

Llongyfarchiadau i Mr Geraint Williams 6C a'i wraig Mrs Stephanie Evans ar enedigaeth Cadi Gwen. Rydym yn edrych ymlaen i gael cwtch gyda hi!

Llysgenhadon Lles
Mae Mrs Cooksey wedi bod yn hyfforddi grwp o Flwyddyn 6 ar sut i fod yn Lysgenhadon Lles. Maent wedi dysgu sgiliau meddwlgarwch ac wedi rhannu hyn gyda Blwyddyn 2. Maent hefyd wedi cael cyfle arbennig i ymweld â thrigolion Cartref

Gweithdy'r Pasg
Fe gafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle i ddysgu am stori'r Pasg yn ddiweddar, wrth iddynt ymweld ag Eglwys Bethel ym Mhontyclun. Diolch i'r gwirfoddolwyr a roddodd o'u hamser i addysgu'r plant.

Y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn
Ebrill yr ail fe ddaeth aelodau o'r frigâd dân i siarad â disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn ac yna ar y 5ed, fe ddaeth PC Knezevic atom i sôn am ei waith. Roedd yr ymweliadau'n rhan o waith y tymor ar bobl sy'n ein helpu.

Dyffryn Ffrwd. Yno, cawson nhw gyfle i rannu eu sgiliau meddwlgarwch trwy chwarae gemau, trafod gyda'r trigolion a chynnal gweithgareddau.

'Mae hi wedi bod yn bleser i ddod i adnabod y trigolion a dysgu am hanes eu bywydau. Maent wir wedi mwynhau ein sesiynau ac rydym ni'n edrych ymlaen i barhau gyda'r berthynas.'

Tilly a Carys 6C

Cwis Llyfrau
Llongyfarchiadau i dimoedd Blwyddyn 3 a 4, a 5 a 6 fu'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Cwis Llyfrau a Book Slam. Roeddent wedi trafod a chyflwyno eu llyfrau yn arbennig o dda.

Diwrnod Trwynau Coch
Trefnodd y Cyngor Ysgol ddiwrnod Trwynau Coch penigamp eleni. Pleser oedd cael gweld nifer o blant wedi ymdrechu cymaint. Fe welson lwyth o steiliau gwallt doniol tu hwnt! Diolch i bawb am eich cefnogaeth ac ymdrechion.

Bu'r athrawon yn brysur iawn hefyd yn pobi ar gyfer cystadleuaeth 'bake off'. Jane o ddosbarth 1E a gipiodd y teitl 'bake off champion' gyda'i phice ar y maen blasus iawn!

Diwrnod y Llyfr
Trefnwyd llawer o weithgareddau gwahanol i Ddiwrnod y Llyfr eleni gyda'r gyda'r plant (a'r athrawon!!!) wedi gwisgo fyny fel cymeriad allan o lyfr. Gwnaeth y plant nôd llyfr yn ystod y dydd a daethant a'u hoff lyfr mewn i'r ysgol.

Ysgol Tonyrefail

Eisteddfod Sir yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr i 2 o ferched Bl6 ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Daeth Rebekah Lewis yn gyntaf ar yr Alaw Werin a Llefaru Bl 5 a 6 ac i Ava Martin-Thomas ar ddod yn gyntaf ar yr Unawd Bl5 a 6. Dymuniadau gorau i'r ddwy yn yr eisteddfod yng Nghaerdydd.

Celf a Chrefft yr Urdd
Diolch yn fawr i'r disgyblion wnaeth gystadlu yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Llongyfarchiadau i - Grŵp Bl2: 1af crochenwaith, Darcey Davies: 1af x 3 ac 2il yn yr adran photograffiaeth, Faith Thomas Wood: 2il gwaith 3D, Ffion Gould: 3ydd gemwaith. Pob lwc i'r enillwyr yng Nghaerdydd.

Gwledd!
Cafwyd diwrnod llawn hwyl i orffen ein thema ar gestyll a Thywysogion Cymru. Roedd pawb wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisg ffansi ar gyfer y wledd yn y 'neuadd fawr'. Addurnwyd y neuadd yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Cafwyd adloniant arbennig gan Y Ffŵl yn ystod y wledd. Bu'r disgyblion yn ogystal yn adeiladu catapwltiau i weld pa rai oedd yn taflu bellaf. Diwedd arbennig i thema cofiadwy iawn.

Profiad y Pasg
Diolch yn fawr i Eglwys Dewi Sant am y gwahoddiad i ddisgyblion Bl6 fod yn rhan o Brofiad y Pasg. Dysgodd y plant lawer am wythnos y Pasg yn eu cwmni.

Castell Caerdydd
Bu disgyblion Blwyddyn 1 a 2 ar drip i Gastell Caerdydd i ddysgu mwy am fywyd

yn y Castell, fel rhan o'u gwaith prosiect. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu boddau. Cynyrchwyd gwaith celf bendigedig yn dilyn yr ymweliad.

Twrnament Pêl -droed
Cafwyd perfformiadau da iawn gan dîmau pêl-droed y bechgyn a merched yn nhwrnament yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn nhw.

Hetiau'r Pasg
Gwahoddwyd rhieni'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn I'r ysgol am baned a sgwrs cyn mynd i wylio gorymdaith hetiau Pasg y plant. Roedd pob un het yn ddigon o sioe!

'Future of Flight'
Fel gwobr am ennill cystadleuaeth 'Future of Flight' cafodd disgyblion Bl6 gyfle i fynd i Sain Tathan i edrych ar yr awyrennau ac i gymeryd rhan mewn gweithdai STEM. Roedd pawb wedi mwynhau'r sialensau a osodwyd iddynt ac fe gafwyd canmoliaeth uchel am ansawdd sgiliau meddwl a chydweithio.

Cydymdeimlad
Roedd cymuned yr ysgol yn hynod o drist o glywed am farwolaeth sydyn Mrs Jan Richards neu Anti Jan, fel yr oedd yn cael ei galw gan gannoedd o ddisgyblion yr ysgol. Bu Anti Jan yn arwain Cylch Meithrin Tre Thomas am nifer fawr o flynyddoedd ac roedd yn ffrind ffyddlon iawn i'r ysgol yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd y cylch, llywodraethwraig, rhiant a mamgu. Fe fydd colled enfawr ar ei hôl a'i gwaith diflino dros y Gymraeg yn yr ardal.

Ysgol Gynradd Garth Olwg

Aeth blwyddyn 5 a 6 i Sŵ Bryste ar drip. Hefyd aeth blwyddyn 1 + derbyn i'r Aquarium.

Da iawn i ferched blwyddyn 5 yn eich gêm pêl-droed fawr gyntaf fel tîm!

Cawsom ni wythnos iachus a hyderus ac roedd llwyth o weithgareddau fel disgo ynni, rhedeg 2k, picnic iachus, meddwlgarwch gan Emma O'Brien, gweithgareddau Pasg yng nghapel Salem a cheerleading. Roedd Dawnsio gwych y disgo ynni yn cael ei redeg gan feic!

Llongyfarchiadau mawr i Sara a Miley am fynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gyda'i deuawd arbennig o swynol! Hefyd llongyfarchiadau mawr iawn i'r gerddorfa am fynd ymlaen i'r genedlaethol a bydd yn perfformio ar lwyfan mawr fydd hefyd ar y teledu!

Da iawn i Llion yn nosbarth Mrs Cartlidge oedd wedi ennill brenin y tablau am y tro cyntaf!

Llongyfarchiadau i blant blwyddyn 2 sef Elis Roberts, Nel Williams a Isla Carson am ddod yn 1af, 2il a 3ydd yn y storiâu eisteddfod!

Da iawn i Mollie Graves a Lyla Humphries am ennill tlysau am eu dawnsio campus!

Llongyfarchiadau i dîmau Cwis Llyfrau Cymraeg a Saesneg bl5 a 6 am ddod yn gyntaf a mynd ymlaen i'r rownd derfynol yn Aberystwyth. Daeth tîm cwis llyfrau Bl3 a 4 yn ail.

Mae'r meithrin wedi bod yn brysur yn creu crwbanod y môr allan o fara!

Da iawn i Mali-Fflur Lane a Laylan am lwyddo i gystadlu gyda thîm Prydain. Squad Cymru da iawn chi!

Aeth Ioan Leyshon i rownd derfynol rygbi yn chwarae i ysgolion Pontypridd! Da iawn ti wir!

Gan Elliw Porter,
Begw Williams a Mari Roberts

Twrnament pêl -fasged
Diolch yn fawr i Missey Lender am ddod i hyfforddi sgiliau pêl –fasged i blant yr adran iau. Cymerodd y tîm ran yn nhwrnament Valley Hoops yn ddiweddar – roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Ysgol Creigiau

Eisteddfod Sir yr Urdd
Cawsom ddiwrnod llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod Sir ym Mis Ebrill. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu. Bydd pob cystadleuaeth gafodd 1af neu 2ail yn cynrychioli'r ysgol a Chaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir ym Mae Caerdydd yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.
1af i Molly, Class 3, Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr. 1af i Ava, Class 5, Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr. 1af i'r Parti Unsain i ddysgwyr. 1af i'r Parti Llefaru i ddysgwyr. 1af i'r Ymgom i ddysgwyr. 2ail i'r Parti Llefaru. 2ail i Mabli, Dosbarth 4, unawd Bl 3 a 4. 2ail i Luna, Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr. 3ydd i'r Ymgom i ddysgwyr.
Diolch o galon i Gyfeillion yr Ysgol am redeg y caffi yn yr Eisteddfod.

Palas Llys Hampton
Cafodd disgyblion Blwyddyn 4 wibdaith arbennig pan ymwelon nhw â Phalas Llys Hampton. Dechreuon nhw o'r ysgol am 6yb a dychwelyd ychydig wedi 6yh! Roedd yn ddiwrnod hir a blinedig ond maent i gyd yn dweud mai dyma'r daith orau erioed!

Ymweliad â Chanolfan Parc Margam
Aeth Dosbarth 3 a Class 3 ar daith i Ganolfan Parc Margam. Cawsant gyfle i ddysgu am fywydau'r Celtiaid a buon nhw'n cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn yr awyr agored. Cawsant hwyl wrth ddysgu ffeithiau di-ri am y Celtiaid.

Cwis Llyfrau
Aeth wyth o ddisgyblion Blwyddyn 4 i gystadlu yn 'Rownd Cyflwyno'r Cwis Llyfrau' yn Ysgol Plasmawr yn ddiweddar. Perfformiodd y grŵp yn wych a chawsant eu gosod yn gydradd drydydd. Rydym yn hynod falch ohonynt - da iawn chi blantos!

Gwibdaith i Gastell Caerdydd

Aeth disgyblion y Derbyn a Reception i ymweld â Chastell Caerdydd i ddysgu mwy am fywyd 'slawer dydd. Cawsant ddiwrnod gwych ond blinedig iawn!

Gemau Caerdydd
Cystadlodd y grŵp Dawnsio Disgo a nifer o unigolion sy'n mynychu'r clwb dawns ar ôl ysgol nos Lun mewn cystadleuaeth ddawns Gemau Caerdydd. Perfformiodd pob un yn wych! Cyrhaeddodd Anni, Dosbarth 6, y rownd derfynol yn y gystadleuaeth unigol a chipiodd y grŵp yr ail wobr allan o 13 grŵp yn y gystadleuaeth i grwpiau. Da iawn ferched! Diolch yn fawr i Mrs Tewkesbury a Miss Ryall am eu hyfforddi a diolch i rieni a theuluoedd am gefnogi.

Lesotho
Ymwelodd tri myfyriwr Blwyddyn 13 o Ysgol Plasmawr â Dosbarth 5 a Class 5 i rannu eu profiadau yn ystod ymweliad diweddar â Lesotho. Mae Molly, Elin a Nia i gyd yn gyn-ddisgyblion. Mwynheuodd disgyblion Blwyddyn 5 wrando ar eu hanesion difyr a'r holl wybodaeth am eu hymweliad. Diolch yn fawr ferched!

Ysgolion Creadigol Arweiniol
Mae disgyblion Dosbarth 2 wedi bod yn rhan o brosiect cyffrous iawn eleni, Camu Drwy Stori. Maent wedi bod yn rhan o brosiect Ysgolion Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru. Buont yn gweithio gyda Sara Lewis i wella eu sgiliau llafaredd ac adrodd stori. Gwahoddwyd rhieni disgyblion Dosbarth 2 i'r ysgol i ddathlu eu dysgu creadigol.

Twrnamaint Rygbi Tag a Thaclo
Cystadlodd pedwar tîm rygbi - taclo a thag yn Nhwrnamaint yr Urdd a gynhaliwyd ar gaeau Llandaf. Chwaraeon nhw i gyd yn wych gydag un tîm tag merched yn cyrraedd y rownd gyn-derfynol. Diolch i bawb a aeth draw i gefnogi.

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Awr y Ddaear

Er mwyn codi ymwybyddiaeth, a dangos cefnogaeth Ysgol Gyfun Garth Olwg tuag at fudiad Awr y Ddaear eleni, arweiniodd y Pwyllgor Eco ymgyrch i ddiffodd trydan yr ysgol gyfan yn ystod gwers 5. Nod yr awr hon oedd codi ymwybyddiaeth disgyblion a chynnal trafodaethau yn dilyn munud i feddwl boreol am y cyfrifoldeb sydd gan unigolion i leihau eu hôl troed carbon a chymryd cyfrifoldeb dros eu dewisiadau nawr. I sicrhau Awr y Ddaear llwyddiannus, aeth y Pwyllgor Eco o amgylch dosbarthiadau yn ystod yr awr ginio i sicrhau bod y golau a chyfrifiaduron wedi diffodd. Gwnaethant hefyd bwysleisio'r neges drwy annog disgyblion a staff i gymryd lluniau gyda'r props i hybu Awr y Ddaear yn yr ysgol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd cefnogaeth gref ar gyfryngau cymdeithasol yr ysgol am Awr y Ddaear. Braf oedd gweld bod Comisynydd Plant Cymru a'r trefnwyr, mudiad rhyngwladol WWF wedi'n cefnogi.

Roedd yn awr llwyddiannus a wnaeth danio'r dychymyg ar gyfer ymgyrch nesaf y Pwyllgor Eco, sef Diwrnod y Ddaear ar yr 22ain o Ebrill.

Cynhadledd MATh Blwyddyn 8

Ddydd Llun y 25ain o Fawrth, aeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 8 lawr i Brifysgol De Cymru ar gyfer Cynhadledd MATh Blwyddyn 8. Pwrpas y diwrnod oedd cwblhau gweithgareddau llawn her er mwyn dyfnhau sgiliau meddwl ein disgyblion. Roedd hefyd yn brofiad gwych iddynt weithio ar gampws prifysgol. Roedd llu o weithgareddau megis athroniaeth, gwyddoniaeth a hanes. Roedd y disgyblion wir wedi mwynhau'r profiad ac yn teimlo eu bod wedi elwa'n fawr.

Taith yr Adran Saesneg i weld Macbeth

Aeth 40 o ddisgyblion o flynyddoedd 8-12 i weld cynhyrchiad y National Theatre o Macbeth yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Mawrth. Roedd y set, gwisgoedd ac actorion yn anhygoel! Roedd hi'n hyfryd gweld cynhyrchiad Shakespeare ar lwyfan; profiad na fyddwn yn anghofio am byth. Roedd e wir wedi helpu dod â'r sgript yn fyw. Michael Nardone chwaraeodd rôl Macbeth ac roedd e'n dda iawn!

Ymweliad â Thy Hafan

Ddydd Gwener y 29ain o Fawrth aeth aelodau o'n dosbarth cofrestru ni, 8 Iolo ar ymweliad i Dŷ Hafan. Pwrpas yr ymweliad oedd gweld beth oedd Tŷ Hafan yn wneud i helpu plant ifanc Cymru sy'n llai ffodus na ni trwy sicrhau cyfleoedd a phrofiadau gwych. Y rheswm aethom ni oedd ein bod ni wedi codi £2,500 i Dŷ Hafan fel rhan o raglen First Give ac roeddem eisiau gwybod ychydig mwy am sut mae'r elusen ffantastig hon yn defnyddio'r arian i helpu bywydau plant. Wrth gyrraedd Tŷ Hafan gwelon ni bod yr adeilad wedi ei leoli mewn man hynod o hyfryd gyda golygfeydd prydferth o'r arfordir a'r môr. Fel rhan o'r ymweliad aethom ni o amgylch yr adeilad a thu allan i weld yr holl bethau roedd yr hosbis yn eu cynnig. Rhywbeth mawr oedd yn amlwg yn bwysig yna oedd printiau o ddwylo pob teulu ac aelod o staff sydd wedi bod yn Tŷ Hafan ers iddi agor tua 20 mlynedd yn ôl. Roedd y dwylo lliwgar hyn i weld ar hyd y coridorau yn arwain chi i fannau cwrdd o fewn yr hosbis.

Rhai o'r pethau anhygoel sydd gan Tŷ Hafan yw ystafell celf a chreu, ystafell synhwyrau, pwll hydrotherapi, cyfrifiaduron, ystafell gerddoriaeth, ystafell gemau, ardal chwarae tu allan gyda gweithgareddau chwarae cynhwysol, trac rasio ceir bach a thrac rasio i gadeiriau olwyn! Roedd gan bob ystafell wely yn Tŷ Hafan olygfeydd o'r môr. Roedd staff Tŷ Hafan yn gwybod beth yn union roedd pob plentyn oedd yn aros yna yn ei fwynhau ac o ganlyniad yn sicrhau bod eu hystafelloedd gwely yn cynnwys y pethau hyn ac yn cael eu haddurno yn ôl y plentyn.

Er bod ambell beth trist iawn i weld, fel y cerrig gydag enwau pob plentyn a fu farw, roedd yr adeilad, y staff ac ambell blentyn wnaethom ni gwrdd yn gwneud y profiad o ymweld yn hynod o hyfryd a chofiadwy. Nid lle trist yw Tŷ Hafan ond lle i deuluoedd a ffrindiau ddod at ei gilydd a mwynhau. Dyma'r rheswm rydym ni fel dosbarth cofrestru am barhau i gefnogi'r elusen ardderchog hon.

Gwobr John Tree

Llongyfarchiadau mawr i Ella Jones-Iles, Blwyddyn 13 am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth gerddorol Gwobr John Tree eleni.

Llwyddiannau Chwaraeon

Llongyfarchiadau i'r merched a gystadlodd yn Stoke on Trent mewn cystadleuaeth Dawnsio Lladin. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant ac yn dymuno'n dda i chi ym Mhencampwriaethau Prydain yn Ebrill.

Dyma'r canlyniadau:
Amelia Hughes a Meg Neale 1af Cwpl 4 iau a Chwpl 8 iau
Kacey Peck ac Abigail Protheroe 3ydd Cwpl 8 iau
Abigail Protheroe 3ydd Cwpl 4 iau
Tiana Mason a Kacey Peck 2il dan 14
Darcey Lewis 2il Cwpl 8 ieuenctid a 1af Cwpl 4 ieuenctid
Emmie Porter a Bethany Sheeley 3ydd cwpl 4 ieuenctid

Ysgol Llanhari

Ffair Wyddoniaeth Blwyddyn 7
Cynhaliwyd Ffari Wyddoniaeth hynod lwyddiannus ar ddiwrnod olaf Tymor y Pasg a dyma benllanw gwaith ymchwilio a chreu disgyblion blwyddyn 7 dros gyfnod o amser yn ystod y tymor. Hyfryd oedd gweld brwdfrydedd y disgyblion a'u gallu i esbonio eu canfyddiadau. Llongyfarchiadau i'r grwp buddugol a da iawn pawb am eu hymdrechion.







Gwobrwyo Cymreictod
Lansiwyd cystadleuaeth Cymreictod i ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn ystod Tymor y Pasg a braf oedd gweld brwdfrydedd y disgyblion a'u hymdrechion gyda'r Gymraeg. Enillwyr cyntaf y wobr oedd 7H ac fe'u gwobrwywyd gyda pizza o Dominos ar ddiwrnod olaf y tymor. Diolch i Mr Lewis am drefnu.

Fy Milltir Sgwar
Mae disgyblion Cyfnod Allweddol Dau wedi bod yn dysgu mwy am eu milltir sgwar ac wedi bod yn greadigol iawn wrth ymchwilio a chyflwyno gwahanol agweddau o'u milltir sgwar yn Llanhari. Mae disgyblion blwyddyn 5 y clwstwr wedi bod yn gweithio ar gyweithiau tebyg ac edrychwn ymlaen at rannu'r gwaith â phawb mewn digwyddiad yn Llanhari ar ddiwedd Tymor yr Haf.

Ysgol arloesol Iechyd a Lles
Gyda dyfodiad y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn ei ffurf drafft, rydym yn parhau i arloesi ym maes iechyd a lles. Yn ddiweddar, cafodd disgyblion bl7&8 y cyfle i gyflwyno eu hymchwil ar anhwylderau meddwl. Mae hyn yn sicr yn gam i'r cyfeiriad cywir wrth edrych ar ein darpariaeth o ran y Cwricwlwm Newydd.

Taith Auschwitz
Profiad dirdynol i Catrin Williams a Heather Hoolahan, myfyrwyr Hanes yn y chweched dosbarth, oedd ymweld â gwersyll crynhoi Auschwitz fel rhan o brosiect cenedlaethol gwersi o Auschwitz, y tymor diwethaf. Rydym yn hynod o ddiolchgar iddyn nhw am gyflwyno'r hanes mewn gwasanaethau i weddill yr sygol ac am adrodd eu profiadiau.

Chwaraeon ar dudalen 16 >

Cyngerddau
Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro

Bydd plant a phobl ifanc o ardal Caerdydd a'r Fro yn rhannu llwyfan gyda Mei Gwynedd, Luke McCall, Athena, Epsie Thompson, Côr CF1 ac Aelwyd y Waun Ddyfal yng nghyngerdd agoriadol Eisteddfod yr Urdd eleni.

Bydd y cyngerdd yn cael ei gynnal yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru, nos Sul, 26ain o Fai 2019 am 7pm i nodi cychwyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Fro. Bydd Mei Gwynedd, cyn aelod o Big Leaves, Sibrydion ac Endaf Gremlin yn perfformio fersiwn newydd o'r gân eiconig, Hei Mistar Urdd, sydd wedi ei recordio gyda chriw o blant lleol ac yn cael ei ryddhau ym mis Mai.. Mae Luke McCall yn un o sêr y West End ac wedi perfformio yn *Phantom of the Opera* a *Les Misérables* yn Llundain. Yn cyflwyno ar y noson fydd Trystan Ellis Morris.

Canolfan Mileniwm Cymru fydd y lleoliad ar gyfer y sioe gerdd wreiddiol 'Troi Heddiw yn Ddoe' gan Anwen Carlisle a Dyfan Jones hefyd. Bydd dros 200 o ddisgyblion ysgolion cynradd yr ardal yn perfformio'r sioe ar y 28ain o Fai yn Theatr Donald Gordon. Cawn ddilyn hanes dau gymeriad sy'n symud i ddociau Caerdydd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf - un i weithio ar y llongau a'r llall fel nyrs yn Ysbyty Hamadryad. Mae'r sioe, a noddir gan Drafnidiaeth Cymru, yn cyfeirio at y defnydd helaeth o'r iaith Gymraeg yn y dociau a nifer o ddigwyddiadau pwysig ym Mhorth Teigr yn ystod cyfnod pan oedd allforio glo ar ei anterth.

Sioe sy'n delio gyda themâu a phroblemau ieuenctid mewn modd gonest, ysgafn a doniol yw 'Twiglets, Rhyw ac Ambell Sbiw!' gan Gruffudd Owen a Mei Gwynedd. Bydd yn cael ei pherfformio gan ddisgyblion ysgolion uwchradd yr ardal 25ain a'r 27ain o Fai yn Ysgol Stanwell, Penarth.

Mae tocynnau ar gael drwy Ganolfan Mileniwm Cymru un ai drwy ffonio 02920 63 64 64 neu drwy'r wefan.

Ysgol Llanhari (o tudalen 15)

Rygbi a phêl droed yr Urdd

Bu diwedd Tymor y Pasg yn gyfnod prysur iawn o ran cystadleuaeth 7 bob ochr rygbi'r Urdd tra mai y bêl gron aeth â bryd disgyblion yr adran gynradd. Da iawn i fechgyn bl5 a 6 ar eu perfformiadau yn y gystadleuaeth bêl-droed ac i'r holl fechgyn a merched o'r adran uwchradd a fu'n cystadlu ym mhencampwriaeth rygbi 7 bob ochr yr Urdd. Cafwyd sawl perfformiad penigamp ac fe fwynhawyd y profiad yn fawr. Diolch i'r athrawon am roi o'u hamser i hyfforddi a chefnogi.